MA GENEDLAETHOL MEWN ADDYSG
NATIONAL MA EDUCATION
CYMRU | WALES

# National MA Education (Wales)

Manyleb Rhaglen

# MA Cenedlaethol Mewn Addysg (Cymru)

## Manyleb Rhaglen

| 1 | **Gwybodaeth gyffredinol** | |
|---|---|---|
| 1.1 | Coleg(au)/Ysgol(ion)/Prifysgolion sy'n cyfranogi | • Prifysgol Aberystwyth<br>• Prifysgol Bangor<br>• Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>• Prifysgol Glyndŵr<br>• Prifysgol Abertawe<br>• Prifysgol De Cymru<br>• Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| 1.2 | I'w cynnig gan yr Adran(nau) | • Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth<br>• Ysgol Addysg Prifysgol Bangor<br>• Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>• Adran Addysg Prifysgol Glyndŵr<br>• Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe<br>• Ysgol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol De Cymru<br>• Canolfan Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth "Yr Athrofa": Athrofa Addysg a'r Dyniaethau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| 1.4 | Staff Allweddol/y Tîm Datblygu Rhaglen yn y brifysgol | **Prifysgol Aberystwyth**<br>Dr Andrew James Davies. Cyfeiriad e-bost: ajd2@aber.ac.uk<br>**Prifysgol Bangor**<br>Peredur Williams, Cyfeiriad e-bost i.p.williams@bangor.ac.uk**Prifysgol Fetropolitan Caerdydd**<br>Dr Cecilia Hannigan-Davies<br>Cyfeiriad e-bost: channigan-davies@cardiffmet.ac.uk<br>**Prifysgol Glyndŵr**<br>John Luker / Kelly Smith<br>Cyfeiriad e-bost: j.luker@glyndwr.ac.uk / k.smith2@glyndwr.ac.uk **Prifysgol Abertawe**<br>Dr Michelle Jones / yr Athro Alma Harris/Dr Helen Lewis<br>Cyfeiriad e-bost: michelle.s.jones@abertawe.ac.uk<br>Alma.harris@abertawe.ac.uk<br>Helen.e.lewis@abertawe.ac.uk<br>**Prifysgol De Cymru**<br>Jamie James / Matthew Hutt<br>Cyfeiriad e-bost: jamie.james@southwales.ac.uk / matthew.hutt@southwales.ac.uk<br>**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**<br>Anna Brychan<br>Cyfeiriad e-bost: a.brychan@uwtsd.ac.uk<br>Junnine Thomas-Walters |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfeiriad e-bost: junnine.thomas-walters@uwtsd.ac.uk |
| 1.6 | Teitl Llawn y Cynllun/Rhaglen yn Saesneg: | MA Cenedlaethol mewn Addysg (CYMRU) |
| 1.7 | Teitl Llawn y Cynllun/Rhaglen yn Gymraeg: | MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) |
| 1.8 | Nod y Cymhwyster (e.e. (MA) a Dyfarniad(au) Ymadael | MA |
| 1.9 | Hyd y rhaglen astudio | Dwy i bum mlynedd |
| 1.10 | Dull darparu (Amser llawn/Rhan-amser/Dysgu o bell) | Rhan-amser yn unig |
| 1.11 | Iaith y Ddarpariaeth<br>100% yn Gymraeg<br>100% yn Saesneg | 100% yn Gymraeg<br>100% yn Saesneg |
| 1.12 | Pwy yw'r gynulleidfa darged? | Gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru |
| 1.13 | Dyddiad cyflwyno arfaethedig | Medi 2021 |
| 1.14 | Amlder ac amseru derbyn myfyrwyr *(e.e. ddwywaith y flwyddyn, mis Medi a mis Ionawr)* | Yn flynyddol ym mis Medi |
| 1.15 | Y lleoliad y byddwn yn cyflwyno'r addysgu | |
| | • Prifysgol Aberystwyth - Campws Penglais<br>• Prifysgol Bangor - safle Normal<br>• Prifysgol Fetropolitan Caerdydd - Campws Cyncoed<br>• Prifysgol Glyndŵr - Campws Wrecsam<br>• Prifysgol Abertawe - Campws Singleton<br>• Prifysgol De Cymru - Campws Dinas Casnewydd<br>• Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - campysau Abertawe a Chaerfyrddin | |
| 1.16 | Addasrwydd ar gyfer ymgeiswyr rhyngwladol Haen 4? | Ddim yn addas |
| 1.17 | Manylion am unrhyw wyriadau arfaethedig o reoliadau'r Brifysgol | |
| | Bydd y rhaglen hon yn dilyn fframwaith rheoleiddio penodol y bydd pob prifysgol sy'n cyfranogi yn cytuno arno. Ceir manylion am unrhyw wyriadau arfaethedig o reoliadau'r Brifysgol yn adran 11.1 | |
| 2.1 | Esboniwch beth yw'r rhaglen mewn llai na 500 o eiriau. | |

| | |
|---|---|
| | Beth yw'r rhesymeg strategol ac academaidd ar gyfer cyflwyno'r cynllun/rhaglen arfaethedig? Pa ffactorau allanol sy'n cefnogi datblygiad y cynnig hwn? |
| | Diben allweddol y cwrs MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) yw magu capasiti proffesiynol ar lefel yr ysgol a rhannau eraill o'r system addysg er mwyn gwireddu uchelgeisiau'r 'Genhadaeth Genedlaethol[1]'. Bydd y rhaglen yn darparu ar gyfer athrawon ac addysgwyr eraill yng Nghymru raglen dysgu proffesiynol achredededig o safon a fydd yn cyfrannu at wella system addysg Cymru drwy fagu galluoedd proffesiynol. Mae'r MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) yn cynnig platfform cyffredin a chyson ar gyfer dysgu proffesiynol ar Lefel 7 i weithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru.<br><br>Mae'r rhaglen MA genedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg yng Nghymru ar bob lefel, o athrawon gyrfa gynnar i uwch-arweinwyr. Ar hyn o bryd, mae rhaglen astudio'r cwrs MA yn gyffredinol ac mae ganddi gyfres gyffredin o fodiwlau y bydd yr holl gyfranogwyr yn eu dilyn. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd llwybrau wedi'u henwi ar gael wrth i'r rhaglen ddatblygu ac wrth iddi ehangu yn y dyfodol, e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol, Arweinyddiaeth. Mae'r rhaglen MA Genedlaethol wedi'i llunio, ei harwain a'i datblygu ar y cyd, gan saith Prifysgol yng Nghymru, dros y 18 mis diwethaf. Mae tîm y rhaglen yn y Brifysgol wedi cysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol fel rhan o'r gwaith o ddylunio'r rhaglen, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, athrawon ac arweinwyr ysgolion, graddedigion y rhaglen MEP, Gwasanaethau Gwella Ysgolion Rhanbarthol, a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysg.<br><br>Daw'r cwrs Meistr Cenedlaethol ar adeg hanfodol o ran polisi ac ymarfer addysgol yng Nghymru. Mae agenda trawsnewid Llywodraeth Cymru, wedi'i hadlewyrchu yn y 'Genhadaeth Genedlaethol, bellach yn symud ymlaen drwy Gwricwlwm newydd i Gymru[2], safonau athrawon ac arweinyddiaeth ddiwygiedig, fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu proffesiynol, fframwaith diwygiedig ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, cynhwysiant a chydraddoldeb, diwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon, a Strategaeth Genedlaethol arfaethedig ar gyfer Ymchwil i Addysg. Ceir newidiadau polisi arwyddocaol a sylweddol a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar ymarfer a pherfformiad addysg yng Nghymru yn y dyfodol.<br><br>Felly, mae'r rhaglen Meistr Genedlaethol wedi cael ei llunio i gyd-fynd â'r newidiadau polisi sylweddol hyn, i gynorthwyo wrth feithrin y capasiti proffesiynol am newid ac i adlewyrchu'r farn gyfredol ym maes dysgu proffesiynol a datblygu gydol gyrfa. Mae ei hegwyddorion craidd yn cydweddu â safonau proffesiynol diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yng Nghymru. Mae'r safonau hyn yn cadarnhau bod ymarferwyr yn ddysgwyr proffesiynol sy'n datblygu, yn cydweithio ac yn arloesi gydol gyrfa, ac y dylent fod yn rhan o gymuned ymchwil ac ymholi, gan ddefnyddio tystiolaeth i lywio a gwella eu hymarfer. Mae'r cwrs Meistr Cenedlaethol yn ymgorffori'r gyfres broffesiynol hon o uchelgeisiau, ac mae'n adlewyrchu'r holl safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.<br>Mae'r dirwedd addysgol yng Nghymru yn newid yn gyflym a bydd y datblygiadau polisi sydd ar y gweill yn effeithio'n sylweddol ar yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen gan y gweithlu addysg nawr ac yn y dyfodol. Mae amgylchedd yr ystafell ddosbarth, boed yng Nghymru neu'n rhywle arall yn y byd, yn gymhleth ac yn datblygu drwy'r amser, ac felly wrth addysgu mae angen meistroli cyfres gymhleth o sgiliau er mwyn tywys, ysgogi a hwyluso dysgu myfyrwyr, ond hefyd y gallu i ymholi ynghylch ymarfer proffesiynol er mwyn ei wella. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, bydd angen i addysgwyr hefyd ehangu eu sgiliau o ran cyd-lunio, arloesi a chydweithio yn ogystal â datblygu ymhellach eu gwybodaeth am gynnwys addysgegol. |

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru


| | |
|---|---|
| | Bydd y cwrs MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) yn sicrhau y bydd gan bob gweithwyr proffesiynol addysg yng Nghymru yr un cyfle o safon i wella ei wybodaeth broffesiynol, cyfranogi mewn ymchwil a gwella ei ymarfer proffesiynol. Yn ei hanfod, mae'r rhaglen MA Genedlaethol yn ymagwedd strategol at feithrin capasiti proffesiynol ledled Cymru. Bydd yn sicrhau y bydd cenedlaethau dilynol o addysgwyr yn ymarferwyr medrus, beirniadol ac effeithiol, gan ddiwallu gofynion newydd system addysg yng Nghymru sy'n newid yn gyflym. Hefyd, bydd y cwrs MA Cenedlaethol yn sicrhau y bydd y proffesiwn addysg wedi'i arfogi ac yn barod i fynd i'r afael ag anghenion newidiol pob dysgwyr yng Nghymru. |
| 2.2 | Ydy'r rhaglen wedi cael ei nodi yng nghynllun busnes y Coleg/Gyfadran? |
| | • Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth - ydy.<br>• Prifysgol Bangor - ydy. Grŵp Strategaeth Academaidd<br>• Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd - ydy.<br>• Prifysgol Glyndŵr - wedi'i chymeradwyo gan Dîm Arweinyddiaeth y Gyfadran a'r Dirprwy Is-ganghellor<br>• Prifysgol Abertawe - ydy<br>• Prifysgol De Cymru - ydy<br>• Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - ydy |
| 2.3 | Gan adlewyrchu ar y deallusrwydd am y farchnad sydd ar gael, beth yw eich asesiad o ddichonoldeb a chynaliadwyedd y rhaglen?<br>Pa farchnad ydy'r rhaglen yn ceisio denu?<br>Beth yw'r galw amcangyfrifedig gan fyfyrwyr ar gyfer y cynllun/rhaglen? Maint tybiedig carfannau dros y tair blynedd gychwynnol a thystiolaeth ar gyfer eich tybiaethau.<br>Beth yw'r nifer lleiaf o fyfyrwyr y bydd angen er mwyn bod yn ddichonol?<br>Y ffordd fwyaf effeithiol o farchnata'r cynnig. |
| | Mae'r rhaglen hon wedi cael ei datblygu ar gais Llywodraeth Cymru. Bydd lleoedd wedi'u hariannu a'u gwarantu i bob sefydliad o flwyddyn i flwyddyn.<br><br>Darperir rhwng 50 ac 80 o leoedd i fyfyrwyr yn flynyddol i bob sefydliad sy'n cyfranogi, wedi'u hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer athrawon gyrfa gynnar sydd ym mlynyddoedd 3 i 6 o'u gyrfa yn benodol. Bydd cyllid rheolaidd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Dengys ffigurau Cyngor y Gweithlu Addysg fod ychydig dros 1,000 o athrawon newydd yn symud ymlaen drwy gyfnod sefydlu yng Nghymru bob blwyddyn:<br><br>• Medi 2014 i Awst 2015 1,169<br>• Medi 2015 i Awst 2016 1,252<br>• Medi 2016 i Awst 2017 1,065<br>• Medi 2017 i Awst 2018 1,116<br>• Medi 2018 i Awst 2019 1,019<br><br>(Cyngor y Gweithlu Addysg (2020). Athrawon Ysgol Cofrestredig a Sefydlu yng Nghymru. Caerdydd: Cyngor y Gweithlu Addysg).<br><br>Gan fydd uchafswm o saith Sefydliad Addysg Uwch yn darparu ac yn cynnig cyfanswm o 350 o leoedd wedi'u hariannu i athrawon gyrfa gynnar bob blwyddyn, rydym yn amcangyfrif y bydd y garfan gyntaf yn 2021 yn tynnu o bwll posibl o 3,500 i 4,000 o athrawon sydd ym mlynyddoedd 3 i 6 o'u gyrfa (gan alluogi rhywfaint o athreuliad yn ystod blynyddoedd cynnar addysgu). Mae hyn yn golygu y bydd angen i Sefydliadau Addysg Uwch denu llai na 10% o athrawon gyrfa gynnar yn y flwyddyn gyntaf er |

| | |
|---|---|
| | mwyn llenwi eu lleoedd a ariennir. Yr unig gynsail ddiweddar y gellir ei dyfynnu fel pwynt cymharu yw'r cwrs Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MEP), sydd wedi'i ddarparu ar y cyd gan Ysgolion Addysg Prifysgolion Aberystwyth a Bangor. Roedd y cwrs MEP yn rhad ac am ddim i athrawon newydd gymhwyso, a llwyddodd recriwtio rhwng 55% a 59% o'r boblogaeth gymwys ar gyfer y 3 carfan yr oedd ar gael iddynt (Hadfield *et al*, (2017), Brychan et al (2019). *Masters in Educational Practice (MEP) Lessons Learned Project Report.* Heb ei gyhoeddi, Caerdydd: Llywodraeth Cymru).'<br><br>Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig darparu 10 lle ychwanegol wedi'u hariannu'n llawn bob blwyddyn i bob darparwr AGA ar gyfer eu hysgolion partner. Mae cryfder a phartneriaethau rhwng y Prifysgolion a'r Ysgolion yn golygu y bydd y 10 lle hyn yn cael eu llenwi'n gymharol hawdd bob blwyddyn. Yn ogystal, bydd y cwrs Meistr ar gael i weithwyr proffesiynol addysg eraill ond ni fydd modd iddynt gael mynediad at y lleoedd wedi'u hariannu. |
| 2.4 | Ydy'r rhaglen yn gorgyffwrdd â rhaglenni eraill yn y Brifysgol? |
| | • Prifysgol Aberystwyth - nid â rhaglenni a fydd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2021-22.<br>• Prifysgol Bangor - nid â rhaglenni a fydd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2021-22.<br>• Mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cynnig rhaglen Meistr mewn addysg, ond ni fydd yn gorgyffwrdd â'r rhaglen Meistr genedlaethol.<br>• Prifysgol Glyndŵr - nac ydy, oherwydd nad yw'r Brifysgol yn cynnig rhaglenni AGA wedi'u hachredu yng Nghymru.<br>• Prifysgol Abertawe - nid â'r rhaglen Meistr sydd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2021-22.<br>• Prifysgol De Cymru - nid yw'r rhaglen newydd, â'i ffocws penodol ar addysg yng Nghymru, yn gorgyffwrdd â rhaglenni MA presennol ym maes addysg a gynigir gan Brifysgol De Cymru<br>• Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - nid â rhaglenni a fydd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2021-22. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.5 | **Ydy'r rhaglen yn cynnwys:** | |
| | Elfennau a ddarperir mewn lleoedd i ffwrdd o gampws y Brifysgol neu sy'n cynnwys ail neu drydydd partïon | Darperir pob modiwl gan bob Sefydliad Addysg Uwch. Fodd bynnag, os bydd angen, gellir darparu modiwlau yn unrhyw un o'r prifysgolion yng Nghymru sy'n cyfranogi |
| | Blwyddyn dramor orfodol | Nac oes |
| | Lleoliad neu brofiad gwaith gorfodol | Nac oes |
| | Dysgu o bell | Nac oes |
| | Dysgu Cyfunol | Oes, bydd yr holl ddeunyddiau ac adnoddau ar gael ar blatfform HWB Llywodraeth Cymru. Bydd mynediad i fyfyrwyr drwy ddolen o Amgylchedd Dysgu Rhithwir eu Sefydliad Addysg Uwch cofrestredig |
| | Elfennau sylweddol wedi'u darparu gan staff nad ydynt yn gyflogeion amser llawn y Brifysgol | Nac oes. |
| | Gofyniad am achrediad gorfodol gan gorff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol | Nac oes |
| **3** | **Ffïoedd Dysgu** | |
| 3.1 | **Beth yw'r ffioedd dysgu arfaethedig ar gyfer y rhaglen? (os ydych yn gwybod)** | |

| | |
|---|---|
| | Y ffi y cytunwyd arni yw £6,500 ar gyfer pob myfyriwr |
| 3.2 | **A fydd myfyrwyr ar y cwrs hwn yn talu ffi safonol y Brifysgol? Os na fyddant, rhowch gyfiawnhad dros unrhyw newid.** |
| | Na fyddant, y ffi y cytunwyd arni ar gyfer yr holl leoedd, gan gynnwys lleoedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fydd £6,500 ym mhob prifysgol sy'n cyfranogi. |
| **4** | **Partneriaethau** |
| 4.1 | Ydy'r cynnig yn rhan o gynnig cydweithredol/partneriaeth? Pwy yw'r partneriaid sydd wrthi'n darparu'r cynllun hwn/y rhaglen hon? |
| | Bydd hon yn rhaglen wedi'i chydlynu'n genedlaethol a gynigir gan saith prifysgol sy'n cyfranogi yng Nghymru, sy'n cydweithio o ran dylunio, darparu, sicrhau ansawdd a llywodraethu. Bydd myfyrwyr yn cofrestru mewn un brifysgol, fel a ganlyn:<br>• Prifysgol Aberystwyth<br>• Prifysgol Bangor<br>• Prifysgol Fetropolitan Caerdydd<br>• Prifysgol Glyndŵr<br>• Prifysgol Abertawe<br>• Prifysgol De Cymru<br>• Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant<br><br>Bydd myfyrwyr yn derbyn **un dyfarniad sefydliadol** gyda **phob partner**, a bydd Llywodraeth Cymru wedi'i henwi ar dystysgrif y radd. |
| **4.2** | **Sut caiff y Cynllun hwn/y Rhaglen hon ei ddarparu/darparu'n genedlaethol yng Nghymru ar draws prifysgolion sy'n cyfranogi?** |
| | Rhaglen dysgu cyfunol yw rhaglen MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru), sy'n cynnwys addysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein ar gyfer pob modiwl. Bydd Arweinwyr Modiwl Academaidd o bob Sefydliad Addysg Uwch, yn ogystal â'r tîm dysgu digidol o Lywodraeth Cymru (Hwb a CDSM), yn cydweithio i ddylunio'r cwricwlwm wyneb yn wyneb ac ar-lein ac asesiadau a gaiff eu darparu'n gyson ledled Cymru.<br><br>Bydd pob sefydliad yn darparu'r tri 'modiwl amnewid' yn Saesneg ac yn Gymraeg ar gyfer yr addysgwyr hynny nad oes ganddynt 60 o gredydau TAR wrth ddechrau'r rhaglen. Yn ogystal, bydd pob Sefydliad Addysg Uwch yn darparu'r modiwl craidd 'Sgiliau Ymchwilio ac Ymholi Uwch' yn ogystal â'r 'Modiwl Traethawd Hir' yn Saesneg ac yn Gymraeg.<br><br>Caiff y modiwlau sy'n weddill sy'n cwmpasu'r pedwar maes blaenoriaeth sef Arweinyddiaeth; Y Cwricwlwm; Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles, eu haddysgu gan bedwar 'Tîm Cyflwyno Cenedlaethol'. Bydd pob tîm yn cynnwys cynrychiolaeth o arbenigedd ar draws consortiwm y Sefydliadau Addysg Uwch a bydd yn cynnwys o leiaf un arbenigwr academaidd cyfrwng Cymraeg yn y maes hwnnw (gan ddibynnu ar faint a dosbarthiad y garfan Gymraeg) a fydd yn gweithredu fel cydlynydd myfyrwyr Cymraeg ar gyfer y modiwlau yn y llwybr hwnnw. Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau y bydd ansawdd profiad myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn gyfartal ag ansawdd profiad eu cymheiriaid cyfrwng Saesneg, a bydd gan bob myfyriwr ar y rhaglen fynediad at arbenigwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar draws consortiwm y Sefydliadau Addysg Uwch. |

Cymerir yr ymagwedd gydweithiol hon er mwyn sicrhau bod y rhaglen MA Genedlaethol yn hygyrch i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.




Bydd chwe 'Egwyddor Dysgu Proffesiynol ar lefel Meistr yng Nghymru' yn llywio cynnwys addysgegol gwaith dylunio addysgol y modiwlau, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Mae dysgu proffesiynol yn effeithio'n gadarnhaol ar bob dysgwr sydd wrth wraidd yr ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol.
2. Mae dysgu proffesiynol yn galluogi pob ymarferwr i gymryd ymagwedd barhaol, feirniadol, gyd-destunol a chydweithredol at ymarfer proffesiynol.
3. Arweinir dysgu proffesiynol gan ddiddordebau ac anghenion unigol ymarferwyr, ac mae'n cydweddu â'r Genhadaeth Genedlaethol.
4. Mae dysgu proffesiynol yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ymchwil ac ymholi ymarferwyr drwy ddadansoddi'n feirniadol a myfyrio ar ymarfer.
5. Mae dysgu proffesiynol yn meithrin llythrennedd ymchwil ac ymarfer ar sail tystiolaeth.
6. Mae dysgu proffesiynol yn gwella gwybodaeth am gynnwys addysgegol ac yn llywio'r gwaith o wella ymarfer a beirniadaeth broffesiynol.

Er mwyn sicrhau ymagwedd gyson ar draws pob Sefydliad Addysg Uwch sy'n bartner, caiff holl ddeunyddiau ac adnoddau'r cwrs MA eu llwytho ar blatfform dysgu proffesiynol HWB Llywodraeth Cymru. Bydd y deunyddiau a'r adnoddau ar gael i fyfyrwyr drwy ddolen ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y sefydliad lle maent wedi cofrestru. Gweler yr Atodiad 'Map o'r Broses' am drosolwg o'r gwaith cyflenwi ar draws y sefydliadau sy'n cyfranogi.

| | |
|---|---|
| **4.3** | **Oes risgiau posibl o ran cydymffurfio â'r UKVI wrth recriwtio myfyrwyr rhyngwladol?** |
| | Nac oes, ni chynigir y rhaglen hon i fyfyrwyr rhyngwladol. |
| **4.4** | **Oes angen gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer ymgeiswyr i'r rhaglen hon?** |
| | Nac oes, bydd holl gyfranogwyr y rhaglen hon yn athrawon/addysgwyr sy'n ymarfer, a fydd eisoes yn meddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| **5** | **Datblygu Rhaglenni** |
| 5.1 | Pa arbenigedd allanol fyddwch yn cael gafael arno er mwyn cefnogi gwaith dylunio'r rhaglen? |
| | 1. Mae staff academaidd profiadol o'r saith prifysgol sy'n cyfranogi yng Nghymru, ynghyd â rhanddeiliaid o'r proffesiwn addysg ehangach yng Nghymru, (athrawon, penaethiaid, Cymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg a staff rhanbarthol gwella ysgolion) wedi cydweithio ers mis Ionawr 2019 er mwyn dylunio a datblygu'r rhaglen MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru).<br><br>2. Defnyddiwyd yr 11 adroddiad ymchwil sy'n ategu'r 'Ymagwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol' yng Nghymru er mwyn drafftio 'Egwyddorion allweddol Dysgu Proffesiynol ar lefel Meistr yng Nghymru' yn ystod gwanwyn 2019 (Atodiad 1).Mae pob un o'r egwyddorion hyn wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar waith dylunio'r rhaglen ac ar y cyd maent yn ategu bod darpariaeth o safon ar lefel Meistr yn canolbwyntio ar y dysgwr, mae'n bwrpasol i'r cyd-destun ac mae'n cael ei chynnal dros amser. Drwy'r cwrs Meistr Cenedlaethol newydd, bydd gweithwyr proffesiynol addysg yn ymgysylltu ag egwyddorion allweddol dysgu proffesiynol ac yn cael profiad uniongyrchol ohonynt, er mwyn iddynt ddod yn rhan annatod o fod yn weithiwr proffesiynol addysg yng Nghymru.<br><br>Yn unol â thystiolaeth ymchwil ryngwladol, nod dysgu proffesiynol yw cysylltu â gweithwyr proffesiynol addysg yn eu cyd-destun nhw - o ran eu hanghenion dysgu a'r cyd-destun. Er mwyn gwreiddio'r uchelgais hon, rhannwyd drafft o'r 'Egwyddorion Dysgu Proffesiynol ar lefel Meistr yng Nghymru' ag aelodau'r proffesiwn, arbenigwyr allanol a rhanddeiliaid eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a mireiniwyd y rheini ymhellach yn sgîl yr adborth. Yr 'Egwyddorion Dysgu Proffesiynol ar lefel Meistr yng Nghymru' yw sail addysgegol y rhaglen genedlaethol, ac maent yn dylanwadu'n uniongyrchol ar waith dylunio'r cyfuniad dysgu.<br><br>3. Mae dau arbenigwr pwnc allanol sydd wedi cael eu cydnabod yn rhyngwladol wedi cael eu penodi i adolygu'r cwrs Meistr cenedlaethol a darparu adborth er mwyn gwella ymhellach ddyluniad a datblygiad y rhaglen:<br>mae'r Athro Graham Donaldson wedi gweithio'n helaeth yn rhyngwladol: fel cynrychiolydd yr Alban a'r Deyrnas Unedig; fel ymgynghorydd; fel arbenigwr rhyngwladol ar gyfer yr OECD; yn cyfrannu at gynadleddau'r UE; fel ymgynghorydd annibynnol; ac fel Llywydd Cynhadledd Sefydlog Ryngwladol yr Arolygiaethau (SICI).Mae'r Athro Donaldson wedi gweithio'n helaeth yng Nghymru ers 2014. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Athro Donaldson i gynnal adolygiad helaeth o'r cwricwlwm. Mae ei adroddiad, sef Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015) wedi helpu i lunio'r cwricwlwm newydd yng Nghymru a gaiff ei roi ar waith yn 2022.<br>Yr Athro Ken Jones oedd Uwch-ymgynghorydd ar gyfer Dysgu a Datblygu Proffesiynol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac mae'n Athro Emeritws yno bellach.Roedd yn Diwtor Academaidd ac yn Fentor Ymgynghorol ar y rhaglen Meistr mewn Ymarfer Addysgol, ac mae wedi bod yn aelod o weithgorau'r llywodraeth yng Nghymru mewn meysydd megis sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, gan ddiwygio fersiynau blaenorol o'r safonau arweinyddiaeth broffesiynol a sefydlu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Athrawon yng Nghymru.Bellach mae'n gweithio fel ymgynghorydd addysg annibynnol ac mae wedi cymryd rhan yn rhyngwladol ym maes |

| | |
|---|---|
| | addysg barhaus i athrawon a phenaethiaid, gan arbenigo ym meysydd arweinyddiaeth ysgolion a dysgu proffesiynol. Mae wedi bod yn Rheolwr Olygydd y cylchgrawn *Professional Development Education* am dros ugain mlynedd, ac roedd yn un o aelodau sefydlu Cymdeithas Ryngwladol Datblygiad Proffesiynol (the International Professional Development Association).<br><br>4. Mae timau o weithwyr proffesiynol addysg hefyd wedi darparu adborth amserol a strwythuredig ynghylch dyluniad y rhaglen, maes llafur y modiwlau a'r ystod o asesiadau ar draws y rhaglen. |
| 5.2 | Beth yw'r llinell amser ar gyfer datblygu'r rhaglen hon?<br>*Dylech gynnwys dyddiadau cau allweddol yn fewnol ac yn allanol, ac amcangyfrif pryd bydd angen cymeradwyo'r rhaglen.* |
| | Dilysu'r rhaglen ar y cyd, 24 Ebrill 2020<br>Diwygiadau o'r rhaglen a'r modiwlau wedi'u dilysu os oes angen erbyn 31 Mai 2020<br>Cymeradwyaeth derfynol o'r rhaglen ar draws pob Sefydliad Addysg Uwch erbyn 30 Mehefin 2020 |

## Y Rhaglen Genedlaethol Arfaethedig ar Lefel M
## Trosolwg Academaidd

Ystyried gwaith dylunio a darparu'r cwricwlwm, profiad y myfyrwyr, adnoddau dysgu a threfniadau cymorth a gweinyddu.

| **6** | **Trosolwg Academaidd** |
|---|---|
| 6.1 | Cadarnhewch fod y rhaglen ar y lefel briodol o ran y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. |
| | Côd Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch<br>Rhan A: Gosod a Chynnal Safonau Academaidd 4.17 Disgrifydd ar gyfer cymhwyster addysg uwch ar lefel 7 ar yr FHEQ a lefel 11 SCQF ar yr FQHEIS: Gradd Meistr<br>Mae'r disgrifydd wedi'i ddarparu ar gyfer lefel hon y fframweithiau ar gyfer unrhyw radd Meistr, a ddylai fodloni'r disgrifydd yn llawn. Hefyd, dylid defnyddio'r disgrifydd cymhwyster hwn fel pwynt cyfeirio ar gyfer cymwysterau eraill ar lefel 7/lefel 11 SCQF ar yr FQHEIS, gan gynnwys tystysgrifau a diplomâu ôl-raddedig.<br>**Crynodeb o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru**<br>Mae cyflawni ar lefel 7 yn adlewyrchu'r gallu i ail-fformiwleiddio a defnyddio dealltwriaeth, methodolegau ac ymagweddau perthnasol i fynd i'r afael â sefyllfaoedd problematig sy'n cynnwys llawer o ffactorau sy'n rhyngweithio. Mae'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu cyrsiau gweithredu sy'n sbarduno neu'n ategu newid neu ddatblygiad sylweddol, yn ogystal â gweithredu annibyniaeth a beirniadaeth eang. Hefyd, mae'n adlewyrchu dealltwriaeth o safbwyntiau damcaniaethol a methodolegol perthnasol a sut maent yn effeithio ar y maes astudio neu weithio.<br>Am restr o Ddeilliannau Dysgu Modiwlau a Meincnodau Lefel 7, gweler y Map o'r Cwricwlwm (Atodiad 2). |
| 6.2 | Disgrifiwch sut mae cynnig y rhaglen wedi cael ei ddatblygu i ymgysylltu â phwyntiau cyfeirio allanol megis meincnodau pwnc perthnasol y QAA neu feincnodau pwnc allanol eraill, neu ofynion corff proffesiynol. |

| | |
|---|---|
| | Nid oes meincnod pwnc penodol ar lefel Meistr sy'n ymwneud ag Addysg. Cyfeiriwyd at ddisgrifyddion cymwysterau lefel saith Côd Ansawdd Diwygiedig y QAA ar gyfer Addysg Uwch (2018), yn ogystal â Chôd Ansawdd, Cyngor ac Arweiniad y Deyrnas Unedig: COURSE DESIGN AND DEVELOPMENT (2018).<br><br>Mae 'Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol (2017) yn ategu pob agwedd ar y rhaglen, ac fe'i hadlewyrchir yn neilliannau dysgu'r rhaglen a'r modiwlau lle bo hynny'n bosibl. Adroddiad Cyngor y Gweithlu Addysg ynghylch 'Y Cyfuniad Dysgu Proffesiynol' Adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ategu'r Ymagwedd Genedlaethol newydd at Ddysgu Proffesiynol ac wedi'i gynnal gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn benodol ynghylch 'Y Cyfuniad Dysgu Proffesiynol' (Jones et al. 2019). Canolbwyntiodd yr adroddiad hwn yn benodol ar ddefnyddio ymagweddau cyfunol yn effeithiol ar gyfer dysgu proffesiynol ym myd addysg. Nododd y ffyrdd y gallai ymagweddau cyfunol ategu'r gwaith dylunio ac effaith dysgu proffesiynol i wella mynediad at gyfleoedd dysgu i ymarferwyr ar adegau gwahanol eu gyrfaoedd, beth bynnag eu lleoliad daearyddol a'r iaith o'u dewis. Eglurodd bod angen i ddiwylliant dysgu cydweithredol proffesiynol cryf fod yn barhaus, ac mae angen i randdeiliaid ar bob lefel y system addysg yng Nghymru ei groesawu. Mae tîm y rhaglen wedi tynnu'n helaeth ar yr adroddiad hwn wrth ddylunio'r rhaglen MA Genedlaethol.<br><br>Addysgu Athrawon Yfory (Furlong, 2015). Dyma adroddiad allweddol sydd wedi llywio datblygiad addysg gychwynnol i athrawon ledled Cymru o fis Medi 2019 ac fe'i hadlewyrchir mewn modiwlau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm gan eu bod bellach yn cynnig cyfleoedd i athrawon cymwysedig wella eu sgiliau cwricwlwm a dysgu. Bydd y cwrs MA cenedlaethol yn adeiladu ar y rhaglenni AGA presennol a gynigir ledled Cymru.<br><br>Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) Mae'r adroddiad hwn yn bwynt newid allweddol i natur y cwricwlwm yng Nghymru, lle bydd y gwahaniaeth rhwng y wlad ddatganoledig a gweddill y Deyrnas Unedig yn dod yn fwyfwy amlwg. Mae modiwlau cwricwlwm ac arweinyddiaeth yn adlewyrchu'r effaith sylweddol y bydd gan fodel newydd Donaldson o gwricwla yng Nghymru ar draws y cyfnodau.<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2015) yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd ym mhob proffesiwn a phob lleoliad addysg yng Nghymru. Mae modiwlau'r cwricwlwm, arweinyddiaeth a lles yn mynd i'r afael ag anghenion lles ym mhob lleoliad addysg.<br>https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/teaching-tomorrow%E2%80%99s-teachers.pdf<br><br>https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/succesful-futures-a-summary-of-professor-graham-donaldsons-report.pdf<br><br>https://www.ewc.wales/site/index.php/en/statistics-and-research/research-and-policy/published-research.html |
| 6.3 | Oes nodweddion arbennig gan y rhaglen y dylid tynnu sylw'r Panel Cymeradwyo atynt (e.e. profiad gwaith, dulliau addysgu neu asesu arloesol)? |
| | Mae'r rhaglen dysgu cyfunol sydd wedi'i hadlewyrchu yn y cwrs MA Cenedlaethol wedi cael ei dylunio ar y cyd gan saith Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru sy'n cyfranogi. Darperir cyfuniad o ddarparu wyneb yn wyneb a darparu ar-lein yn ogystal â darparu asesiadau |

| | |
|---|---|
| | cenedlaethol cyffredin gan bob sefydliad sy'n cyfranogi. Bydd cymedroli ar y cyd ar draws y rhaglen er mwyn sicrhau ansawdd a chydraddoldeb i'r rhaglen ar gyfer pob myfyriwr sy'n cyfranogi. Mae'r rhaglen wedi cael ei dylunio i adlewyrchu arbenigedd cyfunol y sefydliadau sy'n cyfranogi, ac mae wedi'i llywio gan dystiolaeth ymchwil ryngwladol.<br><br>Bydd y rhaglen MA Genedlaethol yn arfogi cyfranogwyr â phrofiadau dysgu allweddol i gefnogi eu hymchwil a'u gwaith ymholi i ymarfer proffesiynol. Bydd yn gwella eu galluoedd arweinyddiaeth, yn annog annibyniaeth broffesiynol, ac yn gwella beirniadaeth broffesiynol ym mhob cyd-destun a sefyllfa. Bydd y pwyslais hwn sy'n canolbwyntio ar ymarfer yn arfogi ymarferwyr addysg i weithredu'n foesegol, cyfranogi'n feirniadol mewn gwaith ymchwil ac ymarfer, gweithio ar y cyd ac ymateb yn arloesol i heriau yn eu cyd-destun.<br><br>**Asesu**<br>Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad heb ei gyhoeddi o'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Ystyriwyd y 26 argymhelliad o'r adroddiad 'Masters in Educational Practice (MEP) Lessons Learned Project Report' (Brychan et al. (2019), gan bob Sefydliad Addysg Uwch a'i ysgolion partner. Amlygodd adborth o'r gwerthusiad hwn bryderon ynghylch nifer ac amlder aseiniadau ar y cwrs MEP. Adroddodd rai athrawon am ddatgysylltiad rhwng asesiadau modiwl a gofynion beunyddiol y swydd, yn ogystal â phryderon ynghylch nifer yr asesiadau ym mhob modiwl. Adroddodd sawl athro ei fod wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen MEP o ganlyniad i lwyth gwaith, oherwydd pwysau cael sawl asesiad ar fodiwlau. Roedd barn bod un aseiniad y modiwl yn ddelfrydol a gallai gweithwyr proffesiynol prysur ymdopi â hyn dros y penwythnos neu yn ystod gwyliau'r ysgol.<br><br>Ystyriodd tîm y rhaglen holl dystiolaeth y cwrs MEP a barn yr holl randdeiliaid wrth ddylunio asesiadau modiwlau yn ogystal â'r amseru ar gyfer cwblhau aseiniadau. Trafodwyd nifer yr asesiadau ym mhob modiwl mewn cyfarfod rhwng tîm y rhaglen a chynrychiolwyr Sicrhau Ansawdd o bob Sefydliad Addysg Uwch ar 2 Mawrth 2020. Cytunwyd yn y cyfarfod hwn y byddai un asesiad ym mhob modiwl, er mwyn sicrhau y byddai dilyniant ar y cwrs yn cael ei fwyafu, ac y byddai amrywiaeth o asesiadau dilys a fyddai'n adlewyrchu ac yn estyn y tasgau y byddai gofyn i weithwyr proffesiynol eu perfformio yn y gweithle. Ystyriwyd y risg uwch o fethu sy'n gysylltiedig ag un asesiad wrth ddylunio ymagweddau at asesu modiwlau (e.e. Patchwork Text, portffolio etc). Hefyd, mae tîm y cynnig wedi sicrhau bod cydbwysedd da rhwng llwyth asesiadau a chyfleoedd dilyniant sy'n gweithio gyda llwyth gwaith cyffredinol myfyrwyr. |
| 6.4 | Os bydd y rhaglen yn cael ei darparu drwy Ddysgu o Bell, rhowch fanylion am y dull darparu a sut y caiff profiad y myfyrwyr ei sicrhau. |
| | Mae'r radd MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru) yn rhaglen dysgu cyfunol sy'n cynnwys addysg wyneb yn wyneb yn lleol a dysgu ar-lein ar gyfer pob modiwl. Caiff deunyddiau ac adnoddau eu llwytho ar blatfform dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru, sef HWB. Bydd y deunyddiau a'r adnoddau ar gael i fyfyrwyr drwy ddolen yn amgylchedd dysgu rhithwir y sefydliad lle maent wedi cofrestru. Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau cydraddoldeb profiad y myfyrwyr ar draws y ddarpariaeth ar-lein drwy gydol pob sefydliad addysg uwch yn y bartneriaeth, ac yn ategu cydraddoldeb cyffredinol profiad y myfyrwyr ledled Cymru, wrth ddarparu hyblygrwydd yn lleol er mwyn ymgysylltu â myfyrwyr. |
| 6.5 | Pa waith ymgynghori â myfyrwyr (myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr) sydd wedi'i geisio wrth ddatblygu'r rhaglen? Darparwch grynodeb o'r adborth a dderbyniwyd. |

| | |
|---|---|
| | Ymgynghorwyd â myfyrwyr ar raglenni MA tebyg mewn Addysg ar draws y sefydliadau perthnasol, ac maent wedi cynnig eu mewnbwn ynghylch dyluniad y rhaglen. Yn ogystal, ymgynghorwyd â Phenaethiaid a Chymdeithion Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion sydd â phrofiad personol a phroffesiynol o raglenni Meistr. Gweler yr atodiad. |
| 6.6 | Sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r agenda cyflogadwyedd? |
| | Dyluniwyd y rhaglen hon i gefnogi'r gwaith o gadw pob gweithwyr proffesiynol addysg, ond yn enwedig athrawon yng Nghymru, ac i feithrin y capasiti ar gyfer newid o ran uchelgeisiau ehangach y sector yn ystod cyfnod o newid cenedlaethol ym maes Addysg. Hefyd, datblygwyd y rhaglen Genedlaethol i gynyddu capasiti arweinyddiaeth ledled y system ar draws lleoliadau ac arbenigeddau addysg. Bydd y radd Meistr yn chwarae rhan sylweddol wrth greu gweithlu addysg uchelgeisiol a hynod fedrus. |
| 6.7 | Esboniwch beth sydd ar waith i sicrhau bod agenda'r cwricwlwm cynhwysol wedi'i thrin, a pha faterion hygyrchedd sydd wedi cael eu hystyried wrth ddylunio'r rhaglen hon. |
| | Dyluniwyd y rhaglen o asesiadau a darpariaeth er mwyn adlewyrchu cymhwyster ar lefel 7 ac arbenigeddau'r gweithlu sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon. Bydd y rhaglen yn diwallu ystod amrywiol o anghenion dysgwyr.<br><br>Bydd yr holl ddeunyddiau addysgu ar gael ar yr amgylchedd dysgu rhithwir ar ffurfiau hygyrch.<br><br>Bydd yr holl daflenni, cyflwyniadau a deunyddiau cwrs ar-lein yn defnyddio testun/lliwiau cefndirol cyferbyniad uchel a ffontiau darllenadwy.<br><br>Bydd pob modiwl yn archwilio safbwyntiau gwahanol yn y Deyrnas Unedig a'r tu allan iddi, ac yn datblygu gwaith meddwl yn feirniadol myfyrwyr a'u hymwybyddiaeth ynghylch safbwyntiau gwahanol ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o ran ethnigrwydd, diwylliant a chenedligrwydd. |
| 6.8 | Pa gymorth i fyfyrwyr a mecanweithiau lles sydd ar waith i helpu i ddarparu profiad academaidd o safon? |
| | Darperir mynediad at gymorth i fyfyrwyr a chymorth bugeiliol y cytunwyd arno mewn modd cyfartal ar draws pob sefydliad sy'n cyfranogi. Dyrennir tiwtor academaidd sy'n rhan o ddarparu'r rhaglen yn y sefydliad lletyol, i bob myfyriwr. Bydd anghenion dysgwyr sy'n oedolion yn ffocws sylw, oherwydd bydd yr holl fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais am y radd MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru) mewn cyflogaeth amser llawn a bydd ganddynt ymrwymiadau ychwanegol a allai effeithio ar eu gallu i astudio. Bydd tiwtoriaid academaidd yn monitro cynnydd myfyrwyr yn agos ac yn rhoi cymorth ac arweiniad ynghylch amrywiaeth o faterion y gallent effeithio arnynt megis lles, presenoldeb a chynnydd addysgol. Hefyd, gallai tiwtoriaid academaidd helpu dysgwyr wrth gynllunio datblygiad personol. Bydd Cyfarwyddwyr Rhaglenni ym mhob Sefydliad Addysg Uwch yn cysylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran profiad a chymorth.<br>Mae gan fyfyrwyr bwyntiau cyswllt cychwynnol gwahanol ar gyfnodau gwahanol yn ystod eu hastudiaethau. Bydd pob tiwtor modiwl yn bwynt cyswllt cychwynnol i'r myfyriwr yn ystod y cyfnod bydd yn astudio'r modiwl hwnnw. Unwaith y bydd myfyriwr yn dechrau'r traethawd |

| | |
|---|---|
| | hir, bydd goruchwylydd y traethawd hir yn dod yn brif diwtor i'r myfyriwr hwnnw am weddill y rhaglen. Gallai'r myfyriwr, ar unrhyw adeg, gysylltu â grwpiau cymorth y Brifysgol i fyfyrwyr neu Arweinydd y Rhaglen, pan fo'n briodol. |
| 6.9 | Rhowch sylwadau ynghylch sut bydd y cynnig yn bodloni amcanion Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. |
| | Bydd y rhaglen hon ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. |

## Cam Tri: Strwythur Academaidd, Cynnwys a Dyluniad


### Ystyriaeth fanwl am gynnwys a dyluniad academaidd, nodweddion arbennig, arholi allanol

| **7** | **Manylion Academaidd** | |
|---|---|---|
| 7.1 | Rheoliadau Perthnasol y Brifysgol | Mae Prifysgolion sy'n cyfranogi wedi cytuno ar y cyd ar fframwaith rheoleiddio cenedlaethol, gan nodi lle mae rheoliadau lleol ar waith, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran profiad myfyrwyr ar draws pob Sefydliad Addysg Uwch sy'n cyfranogi. |
| 7.2 | Ydy'r rhaglen arfaethedig yn cynnwys gwyro o'r rheoliadau hyn o gwbl? | Ydy, bydd ar y rhaglen hon angen cyfres o Reoliadau penodol y cytunwyd arnynt ledled Cymru, a fydd yn gyffredin ledled pob Sefydliad Addysg Uwch sy'n cyfranogi. Cymeradwyir gwyriadau o reoliadau lleol o ganlyniad i hyn ym mhob Sefydliad Addysg Uwch er mwyn i'r fframwaith cenedlaethol gael ei roi ar waith yn gyson. |
| 7.3 | Corff Dyfarnu | Bydd pob Prifysgol yn dyfarnu ei gradd ei hun i fyfyrwyr yn y sefydliad hwnnw. |
| 7.4 | Dyfarniadau Ymadael: Rhestr o gymwysterau canolradd neu ymadael *(i fyfyrwyr nad ydynt yn cyflawni nod y cymhwyster)* | Tystysgrif Ôl-raddedig; Diploma Ôl-raddedig. *(Nid yw'r PGCert ar gael i fyfyrwyr sydd â Dysgu Blaenorol Cydnabyddedig gwerth 60 credyd wrth gychwyn)* |

| | | |
|---|---|---|
| 7.5 | Gofynion mynediad (gan gynnwys rhagofynion ar gyfer mynediad) | Statws Athro Cymwys;<br>Wedi'i gyflogi ar hyn o bryd yn y sector addysg orfodol yn y DU. |
| 7.8 | Enw'r cynllun gradd/cydlynydd y rhaglen | Prifysgol Abertawe:<br>Dr Michelle Jones<br>Prifysgol Fetropolitan Caerdydd: Dr Cecilia Hannigan-Davies<br>Prifysgol De Cymru: Dr Matt Hutt<br>Prifysgol Glyndŵr: John Luker<br>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant: Anna Brychan<br>Prifysgol Aberystwyth: Dr Andrew James Davies<br>Prifysgol Bangor: Mr Huw Clwyd Phillips |
| 7.9 | Iaith/ieithoedd y ddarpariaeth<br><br>100% yn Gymraeg<br><br>100% yn Saesneg | <br><br>100% yn Gymraeg<br><br>100% yn Saesneg |
| 7.10 | Cydnabod Dysgu Blaenorol Achrededig a/neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad | |
| | Yr uchafswm nifer y credydau y caniateir iddynt gael eu trosglwyddo i'r radd Meistr lawn yw 60. Caiff ymgeiswyr gychwyn ar y rhaglen ar wahanol lefelau (h.y. â 20, 40 neu 60 credyd ar Lefel 7) â Dysgu Blaenorol Achrededig/Dysgu Blaenorol drwy Brofiad yn unol â rheoliadau cyffredinol pob prifysgol. Ar gyfer myfyrwyr sydd am ymadael â dyfarniad y radd MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru), mae'n rhaid i hyn gynnwys y modiwl Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch.<br>Er enghraifft, gall cwblhau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR) eich rhoi ar lefel uwch (neu gyfwerth) er mwyn ymuno â'r rhaglen. Gall myfyrwyr nad ydynt wedi cwblhau rhaglen AGA achrededig yng Nghymru (2019) hawlio Dysgu Blaenorol Achrededig/Dysgu Blaenorol drwy Brofiad am hyd at uchafswm o 60 credyd ar gyfer y rhaglen, yn seiliedig ar bob cais unigol.<br>Sylwer mai'r unig ddyfarniadau ymadael posibl ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau'r rhaglen â Dysgu Blaenorol Achrededig/Dysgu Blaenorol drwy Brofiad fydd y Diploma Ôl-raddedig mewn Addysg neu'r MA mewn Addysg. | |
| **8** | **Strwythur y Rhaglen** | |
| 8.1 | Rhowch ddiagram o strwythur y rhaglen, sy'n rhestru pob modiwl. Rhaid i hwn fanylu ar fodiwlau craidd, rhagofynnol a dewisol, gan nodi lle ceir dewisiadau cyfrwng Cymraeg, ynghyd â rheolau penodol y rhaglen, a gynigir fel rhan o'r rhaglen: | |

**Strwythur y Rhaglen**

Bydd y rhaglen yn darparu cynnwys academaidd a gwybodaeth broffesiynol ar lefel 7 i fyfyrwyr. Bydd yn darparu trosolwg cynhwysfawr o faterion hanfodol ym maes Addysg yng Nghymru, a chaiff ei llywio gan ymchwil genedlaethol a rhyngwladol. Trefnir y rhaglen yn fodiwlau sy'n adlewyrchu meysydd allweddol ym myd addysg sy'n dra phwysig i'r diwygio addysgol yn yr awyrgylch presennol, ond sy'n cyfrannu ar y cyd at ddealltwriaeth academaidd ac ymarferol ar lefel uchel ynghylch materion proffesiynol craidd.




**Cam Mynediad, (Rhan 1a)** sy'n gyfwerth â 60 credyd cyntaf y cwrs TAR newydd.

Mae'r proffesiwn addysg wedi dod i gyfeirio'n gyffredin at Ran 1b y rhaglen fel y 'Gyfres Ddysgu Broffesiynol' gan fod y modiwlau dewisol yn canolbwyntio ar y pedwar maes blaenoriaeth sef Anghenion Dysgu Ychwanegol, Arweinyddiaeth, Cwricwlwm a Lles.

Ceir un modiwl Craidd, sef 'Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch' sy'n gyffredin i'r rhaglen gyfan. Mae'r modiwl hwn yn orfodol i bob myfyriwr a bydd yn sylfaen ar gyfer arfogi gweithwyr proffesiynol â'r sgiliau ymchwil ac ymholi uwch y mae eu hangen i gwblhau modiwl y traethawd hir.

Bydd dau fodiwl dewisol pellach yn dod yn 'Graidd' ar ôl cael eu dewis gan y myfyriwr. Mae meysydd y modiwlau wedi cael eu nodi gan Lywodraeth Cymru, ysgolion a'r rhanbarthau fel meysydd angen ar gyfer dysgu proffesiynol addysgol. Caiff y sylfeini academaidd a'r goblygiadau ymarferol yn y meysydd hyn eu harchwilio a'u harholi.

Mae **Rhan 2** yn cynnwys modiwl craidd y traethawd hir.

| | |
|---|---|
| | **MODULE TITLES** |
| | Priority Areas: Curriculum & Pedagogy; Leadership; Wellbeing; ALN |
| | **Part 1a** Replacement Modules (20 Credits each): Pedagogy and Practice<br>Evidence-Informed Practice<br>Collaboration and Professional Practice |
| | **Part 1b** Optional Modules (20 Credits each): **ALN:** Inclusive Classroom Practice,<br>Leadership and Management of ALN<br>**Leadership:** Leading and Managing Education Professionals,<br>Leading Organisational Change<br>**Curriculum:** Curriculum Design and Realisation<br>Exploring Pedagogies<br>**Health and Wellbeing:** Emotional and Mental Wellbeing<br>Equity and Diversity |
| 8.2 | Nodau'r rhaglen.<br>*Dylai nodau'r rhaglen fod yn ddatganiadau cryno sy'n disgrifio diben eang y rhaglen a'r hyn mae'r rhaglen yn ceisio ei gyflawni.* |
| | Nod allweddol y rhaglen genedlaethol arfaethedig hon yw datblygu ymarfer addysgol ac arbenigedd arweinyddiaeth o safon ar bob cam gyrfaol (gyrfa gynnar i uwch arweinwyr).<br><br>Mae'r rhaglen genedlaethol yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol addysg i gyfranogi mewn modiwlau cyfoes a pherthnasol sy'n seiliedig ar ymchwil ac yn cydweddu ag 'Egwyddorion Dysgu Proffesiynol ar Lefel Meistr yng Nghymru (Atodiad 1); yr Ymagwedd Genedlaethol ehangach at Ddysgu Proffesiynol a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol.<br><br>Bydd y radd Meistr Genedlaethol yn cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar bob lefel mewn cyd-destunau addysg i feithrin eu gwybodaeth ymchwil, eu sgiliau a'u dealltwriaeth er mwyn iddynt allu gwerthuso, dadansoddi a myfyrio ar eu hymarfer addysgol presennol wedi'u llywio gan ymchwil ryngwladol berthnasol a syniadau damcaniaethol allweddol.<br><br>Bydd y rhaglen yn adlewyrchu, yn ystyried ac yn gwerthuso'n feirniadol flaenoriaethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol allweddol y sector addysg gan gynnwys rhai Llywodraeth Cymru a rhai rhanddeiliaid allweddol eraill. |
| 8.3 | Deiliannau dysgu a fwriedir ar gyfer y rhaglen.<br>Dylech seilio'r rhain ar: *Wybodaeth a Dealltwriaeth; Sgiliau deallusol; Sgiliau pwnc; a Sgiliau ymarferol, proffesiynol a chyflogadwyedd* |
| | **Gwybodaeth a dealltwriaeth**<br>Erbyn diwedd y rhaglen hon, bydd myfyrwyr yn dangos: |

| | |
|---|---|
| | G1. Gwybodaeth fanwl, systematig ac uwch am gymhlethdod a natur amlochrog byd addysg, yn ei gyd-destun ei hun a'r tu hwnt.<br>G2. Gwerthusiad beirniadol o safbwyntiau polisi, damcaniaethol ac ymarferol presennol ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol<br>G3. Myfyrio'n feirniadol a dehongli, syntheseiddio a chymhwyso gwybodaeth ac ymchwil yn eu cyd-destunau proffesiynol eu hunain.<br>G4. Gwerthusiad a synthesis cynhwysfawr a beirniadol o lenyddiaeth berthnasol.<br>G5. Ymwybyddiaeth feirniadol o ymagweddau methodolegol allweddol sy'n berthnasol i waith ymholi proffesiynol.<br>G6. Gwreiddioldeb wrth ddylunio, cymhwyso a gwerthuso ymagweddau priodol at ymholi proffesiynol, a myfyrio'n feirniadol ar y rhain fel dull dysgu proffesiynol.<br>G7. Caffael yn systematig gorff sylweddol o wybodaeth yn ei faes ymarfer proffesiynol.<br>G8. Y gallu i gyfathrebu'n gywir ac yn glir ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd<br><br>**Sgiliau**<br>Bydd myfyrwyr yn dysgu:<br>S1. Cymhwyso cyfranogiad mewn damcaniaeth a thystiolaeth er mwyn datblygu safbwyntiau personol a phroffesiynol newydd ei ymarfer proffesiynol ei hun.<br>S2. Cyrraedd casgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud â materion cymhleth ym myd addysg yn gyffredinol, a'u maes ymarfer proffesiynol yn benodol.<br>S3. Gwerthuso ei anghenion dysgu ei hun er mwyn gosod ac adolygu ei amcanion dysgu proffesiynol ei hun.<br>S4. Rhoi ymagweddau systematig ar waith i werthuso'n feirniadol ei ymarfer ei hun mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu a Dysgu (2017).<br>S5. Gwerthuso'n feirniadol lenyddiaeth a thystiolaeth i feithrin ei sgiliau ymholi ei hun.<br>S6. Cynllunio gwaith ymholi proffesiynol yn effeithiol ac yn foesegol.<br>S7. Cynnal prosiect ymholi estynedig sy'n ymwneud â'i ymarfer ei hun.<br>S8. Datblygu arddulliau ysgrifennu clir a phriodol yn Gymraeg neu yn Saesneg, sy'n hygyrch i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.<br>S9. Cymhwyso ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau trosglwyddadwy er mwyn ymgysylltu â phobl eraill, eu cefnogi a dylanwadu arnynt pan fo'n briodol. |
| 8.4 | Nodi pa ddeilliannau dysgu a fwriedir sy'n ymwneud â 60 credyd wrth gychwyn ar y cwrs drwy Ddysgu Blaenorol Achrededig a/neu Ddysgu Blaenorol drwy Brofiad |
| | Ystyriodd tîm datblygu'r rhaglen ddeilliannau dysgu lefel 7 yr holl raglenni TAR sy'n cael eu darparu yng Nghymru ar hyn o bryd, a nodwyd y deuddeg deilliant dysgu canlynol sy'n gyffredin i bob un.<br><br>Mae'r deilliannau dysgu canlynol yn ymwneud â 60 credyd wrth gychwyn ar y cwrs:<br><br>1. dadansoddi'n feirniadol a syntheseiddio tystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi.<br><br>2. gwerthuso a chymhwyso methodolegau a dulliau ymchwil priodol, gan ddangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol.<br><br>3. cymhwyso egwyddorion moesegol yn feirniadol, i'w dilyn wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso ymyriadau neu ymchwil agos at ymarfer ar raddfa fach. |

| | |
|---|---|
| | 4. dadansoddi'n feirniadol a syntheseiddio data lleol, cenedlaethol a phrofiad ysgolion er mwyn cael deallusrwydd ynghylch cyflawniad, cynnydd a chymhelliant plant yn y broses ddysgu, er mwyn llywio penderfyniadau.<br><br>5. dangos gwybodaeth am y cwricwlwm, addysgeg, asesu ac ymarfer cynhwysol sy'n briodol i'w Feysydd Dysgu a Phrofiad penodol ei hun.<br><br>6. dadansoddi'n feirniadol a gwerthuso'r gwaith priodol o integreiddio technoleg mewn dysgu o safbwynt polisi, ymchwil, damcaniaeth a phrofiadau presennol yn yr ysgol.<br><br>7. meithrin sgiliau personol a sgiliau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, y Gymraeg, a sgiliau ehangach.<br><br>8. myfyrio'n feirniadol ar y ffordd y gellir strwythuro'r amgylchedd a'r adnoddau dysgu er mwyn cefnogi dysgu effeithiol.<br><br>9. cydnabod ac amddiffyn gwerth cydweithio â chydweithwyr, dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill er mwyn symud dysgu ymlaen.<br><br>10. ymarfer ei gyfrifoldebau cytundebol, bugeiliol, cyfreithiol a phroffesiynol er mwyn diwallu anghenion a mwyafu potensial pob dysgwr.<br><br>11. rheoli ei les ei hun, yn ogystal â datblygu ei allu i gyfrannu at les a diogelu'r disgyblion sydd yn ei ofal.<br><br>12. dadansoddi'n feirniadol a gwerthuso ei werthoedd a'i gredoau ei hun ynghylch dysgu ac addysgu er mwyn datblygu fel ymarferydd myfyriol<br>Bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr ar y rhaglen, sy'n athrawon, yn meddu ar y deilliannau dysgu ar lefel 7, wedi cyflawni'r cwrs TAR. Fodd bynnag, ar gyfer lleiafrif bach caiff eu dysgu blaenorol ei ystyried ar sail unigol. |
| 8.5 | Disgrifiwch y strategaethau dysgu ac addysgu i'w defnyddio er mwyn cyflawni'r deiliannau dysgu a fwriedir. |
| | Rhaglen dysgu cyfunol yw'r rhaglen MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru), sy'n cynnwys addysgu wyneb yn wyneb a dysgu ar-lein ar gyfer pob modiwl. Bydd Arweinwyr Modiwl Academaidd o bob Sefydliad Addysg Uwch, yn ogystal â'r tîm dysgu digidol o Lywodraeth Cymru (Hwb a CDSM), yn cydweithio i ddylunio'r cwricwlwm wyneb yn wyneb ac ar-lein ac asesiadau a gaiff eu darparu'n gyson ledled Cymru.<br><br>Bydd chwe 'Egwyddor Dysgu Proffesiynol ar Lefel Meistr yng Nghymru' yn llywio cynnwys addysgegol gwaith dylunio'r hyfforddi wyneb yn wyneb ac ar-lein.<br><br>1. Mae dysgu proffesiynol yn effeithio'n gadarnhaol ar bob dysgwr sydd wrth wraidd yr ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol.<br>2. Mae dysgu proffesiynol yn galluogi pob ymarferwr i gymryd ymagwedd barhaol, feirniadol, gyd-destunol a chydweithredol at ymarfer proffesiynol,<br>3. Arweinir dysgu proffesiynol gan ddiddordebau ac anghenion unigol ymarferwyr, ac mae'n cydweddu â'r Genhadaeth Genedlaethol.<br>4. Mae dysgu proffesiynol yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ymchwil ac ymholi ymarferwyr drwy ddadansoddi'n feirniadol a myfyrio ar ymarfer. |

| | |
|---|---|
| | 5. Mae dysgu proffesiynol yn meithrin llythrennedd ymchwil ac ymarfer ar sail tystiolaeth.<br>6. Mae dysgu proffesiynol yn gwella gwybodaeth am gynnwys addysgegol ac yn llywio'r gwaith o wella ymarfer a beirniadaeth broffesiynol.<br><br>Bydd y rhaglen MA Genedlaethol yn arfogi cyfranogwyr â'r profiadau dysgu allweddol ar sail yr egwyddorion addysgegol i feithrin eu hymchwil a'u hymholi eu hunain i ymarfer proffesiynol. Caiff gweithgareddau dysgu ac addysgu eu dylunio i wella galluoedd arweinyddiaeth myfyrwyr, annog annibyniaeth broffesiynol a gwella beirniadaeth broffesiynol ym mhob cyd-destun a sefyllfa. Bydd y pwyslais hwn sy'n canolbwyntio ar ymarfer yn arfogi ymarferwyr i weithredu'n foesegol, ymgysylltu'n feirniadol ag ymchwil ac ymarfer, gweithio'n gydweithredol ac ymateb yn arloesol i heriau yn eu cyd-destun eu hunain.<br><br>Gweler yr Atodiad 'Map Datblygu Modiwl: Arwain Newid Sefydliadol' am drosolwg dangosol o'r cyfuniad o weithgareddau dysgu ac addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein.<br><br>Bydd yr holl ddeunyddiau addysgu ar gael ar blatfform dysgu HWB Llywodraeth Cymru ac amgylcheddau dysgu rhithwir cysylltiedig y sefydliadau.<br><br>Bydd yr holl daflenni, cyflwyniadau a deunyddiau cwrs ar-lein yn defnyddio testun/lliwiau cefndirol cyferbyniad uchel a ffontiau darllenadwy.<br><br>Bydd modiwlau'r rhaglen yn archwilio safbwyntiau gwahanol yn y Deyrnas Unedig a'r tu allan iddi, ac yn datblygu gwaith meddwl yn feirniadol ac ymwybyddiaeth y myfyrwyr ynghylch safbwyntiau gwahanol ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o ran ethnigrwydd, diwylliant a chenedligrwydd. |
| 8.6 | Ydy'r rhaglen yn cynnwys modiwlau newydd, diwygiedig neu bwrpasol? Os ydy, rhowch fraslun yma gan gynnwys ffurflenni cymeradwyo modiwl ynghyd â'r ddogfennaeth. |
| | Rhaglen newydd yw hon, lle mae'r holl fodiwlau yn newydd. Mae pob disgrifydd modiwl wedi'i gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth ddilysu. |
| 8.8 | Esboniwch sut mae trefn asesu'r rhaglen wedi cael ei llunio er mwyn mesur cyflawni'r deilliannau dysgu a fwriedir. |
| | Mae dulliau asesu wedi cael eu pennu yn unol â chynnwys a gofynion pob modiwl yn ogystal â'r patrwm asesu cyffredinol ar draws y rhaglen. Manylir ar y tasgau asesu dangosol ym mhob manyleb modiwl. Caiff yr holl aseiniadau eu cyflwyno a'u marcio gan ddefnyddio Turnitin.<br><br>Caiff modiwlau eu hasesu drwy fath o waith cwrs (e.e. traethawd/poster) sy'n ymwneud yn benodol â chynnwys arbenigol y modiwl sydd wedi'i lywio gan ymchwil ac sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae'r holl fodiwlau'n adlewyrchu'r gwerthoedd craidd sydd wrth wraidd y rhaglen MA o ran perthnasedd, natur gymhwysol a datblygu'r ymarferydd addysg fel gweithiwr proffesiynol wedi'i lywio gan ymchwil.<br><br>Cyflwynir asesiadau ar ddiwedd y cyfnod addysgu pan addysgir y modiwl. Dewisir asesiadau i arholi gallu myfyriwr i integreiddio damcaniaeth ac ymarfer, ac i feddwl yn feirniadol am gynnwys y modiwl. Datblygir sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy sy'n benodol i'r pwnc mewn gweithgareddau dysgu annibynnol a rhai a amserlennir. Bydd yr holl fodiwlau'n asesu amrywiaeth o sgiliau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy brosesau asesu'r modiwl. |

| | |
|---|---|
| | Bydd y modiwl Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch yn paratoi myfyrwyr i ymgymryd â darn annibynnol o ymchwil drwy eu tywys drwy'r hanfodion ar gyfer ymchwil/ymholi yn y gwyddorau cymdeithasol.<br><br>Mae modiwl y Traethawd Hir yn galluogi myfyrwyr i ehangu ymhellach eu harbenigedd ymchwil ac ymholi drwy archwilio'n fanwl bwnc penodol sy'n seiliedig ar addysg. Bydd y modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i adeiladu ar y galluoedd ar gyfer dysgu wedi'i hunan-reoli a meddwl yn feirniadol a gyflawnir yn ystod cyfnod addysgu un a chyfnod addysgu dau y rhaglen.<br>Dyluniwyd asesiadau dilys er mwyn galluogi'r myfyrwyr i gyflawni Deiliannau Dysgu pob modiwl. Mae deilliannau dysgu'r modiwl wedi cael eu mapio yn unol â Deilliannau'r Rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn cydweddu'n adeiladol.<br><br>**Egwyddorion sy'n Llywio Strategaeth Asesu'r Rhaglen**<br>Egwyddor allweddol sy'n llywio'r strategaeth asesu oedd bod angen i asesiadau gydweddu'n adeiladol â deilliannau dysgu'r modiwlau, a bod angen i ddeilliannau dysgu'r modiwlau hynny gydweddu'n uniongyrchol â meincnodau Lefel 7 (gweler dogfen Map o'r Cwricwlwm). Hefyd, roedd datblygiad strategaeth asesu'r rhaglen yn cydweddu'n uniongyrchol â'r Egwyddorion cyffredinol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar lefel Meistr yng Nghymru, a ddatblygwyd gan y grŵp ar gais Llywodraeth Cymru, ac yr ymgynghorwyd arnynt yn eang, yng Nghymru ac yn rhyngwladol, cyn terfynu.<br>**Cydweddu rhwng yr Egwyddorion ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar lefel Meistr yng Nghymru a threfn a strategaeth asesu'r rhaglen:**<br>1. Mae dysgu proffesiynol yn effeithio'n gadarnhaol ar bob dysgwr sydd wrth wraidd yr Ymagwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol.<br>*Mae'r holl asesiadau'n berthnasol ac yn ddilys yn broffesiynol, ac wrth eu gwreiddiau y prif amcan yw gwella ymarfer addysgol a gwella deilliannau'r dysgwr.*<br>2. Mae dysgu proffesiynol yn galluogi pob ymarferwr i gymryd ymagwedd barhaus, feirniadol a chydweithredol at ymarfer proffesiynol.<br>*Mae asesiadau wedi cael eu cynllunio er mwyn galluogi myfyrwyr i gymryd ymagwedd ar sail ymholi at eu hymarfer proffesiynol, ac i archwilio'n feirniadol y cyd-destunau y maent yn ymarfer ynddynt.*<br>3. Arweinir dysgu proffesiynol gan anghenion a diddordebau unigol ymarferwyr, ac mae'n cydweddu â'r Genhadaeth Genedlaethol.<br>*Dylunnir aseiniadau er mwyn mynd i'r afael â'r materion a'r pwnc sy'n cael eu cynnwys yn y modiwlau drwy lens ymarfer unigol - gofynnir i fyfyrwyr fyfyrio ar y ffyrdd y mae eu cyfranogiad yn y modiwl a'u dysgu wedi llywio a gwella eu hymarfer. Mae amcanion cyffredinol y Genhadaeth Genedlaethol wedi'u gwreiddio drwy'r rhaglen, mewn meysydd megis addysgeg, datblygu'r cwricwlwm, lles, arweinyddiaeth, cynhwysiant ac ymagweddau at ymarfer sy'n seiliedig ar ymholi.*<br>4. Mae dysgu proffesiynol yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ymchwil ac ymholi ymarferwyr drwy ddadansoddi'n feirniadol a myfyrio ar ymarfer.<br>*Anogir safbwynt ymholi, ac mae angen hynny, ar gyfer y rhan fwyaf o aseiniadau. At hynny, mae'r ddau fodiwl sef Sgiliau Ymchwil ac Ymholi Uwch a modiwl y Traethawd Hir yn orfodol, ac mae'r aseiniad ym mhob un wedi'i ddylunio â'r nod o gynnal prosiect ymchwil/ymholi estynedig yn eu maes ymarfer proffesiynol.*<br>5. Mae dysgu proffesiynol yn meithrin llythrennedd ymchwil ac ymarfer ar sail tystiolaeth.<br>*Drwy gydol asesiadau'r rhaglen, mae'n ofynnol i fyfyrwyr: gyfranogi'n feirniadol ac yn hyderus mewn amrywiaeth eang o dystiolaeth a deallusrwydd ar sail tystiolaeth, a llenyddiaeth bolisi a thystiolaeth; myfyrio ar ystyr bod yn ymarferydd wedi'i lywio gan dystiolaeth; ac ystyried sut mae'n trafod y cysylltiad cymhleth rhwng tystiolaeth ac ymarfer.* |

| | |
|---|---|
| | 6. Mae dysgu proffesiynol yn gwella gwybodaeth am gynnwys addysgegol ac yn llywio'r gwaith o wella ymarfer a beirniadaeth broffesiynol.<br>*Mae archwilio addysgegau, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng addysgeg a chynnwys, yn allweddol i'r modiwl Addysgeg ac Ymarfer, ac i'r modiwl Archwilio Addysgeg, ac mae aseiniadau'r ddau fodiwl yn gofyn i fyfyrwyr fyfyrio ar eu haddysgeg wrth ymarfer.*<br>**Yr amrywiaeth o ddulliau asesu**<br>Egwyddor allweddol arall yn llywio datblygiad strategaeth asesu'r rhaglen oedd cynnig amrywiaeth o fathau a dulliau asesu, gan adlewyrchu meysydd gwahanol o wybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a chymwyseddau. Bydd myfyrwyr yn cael cyfle i wneud aseiniadau sy'n berthnasol yn uniongyrchol i ymarfer addysgol ac yn ddefnyddiol i hynny, pan fo'n bosibl, ac sy'n galluogi myfyrwyr i ddangos ystod o ddoniau. Mae portffolio asesu'r rhaglen yn cynnwys:<br>- Traethodau.<br>- Traethawd hir sy'n seiliedig ar ymchwil/ymholi<br>- Cynnig am brosiect ymchwil/ymholi<br>- Portffolios o dystiolaeth<br>- Poster Academaidd Anodiadol<br>- Cyflwyniadau.<br>- Aseiniad Testun Cyfansawdd<br>- Adnodd addysgu<br>- Adnodd Dysgu Proffesiynol<br><br>**Un asesiad ym mhob modiwl**<br>Wrth gynllunio'r strategaeth asesu ar gyfer y radd Meistr Genedlaethol, mae grŵp cynnig y rhaglen wedi ymgynghori'n eang â phenaethiaid a chymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg a fynegodd fod yn well ganddynt bwyntiau asesu modiwlau unigol er mwyn bod yn ystyriol o lwyth gwaith gweithwyr proffesiynol. Hefyd, mae'r tîm wedi ystyried yn briodol werthusiad y radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MEP) (Brychan *et al*., 2019). Cwblhawyd yr astudiaeth werthuso hon yn ystod camau cynnar gweithgareddau tîm y cynnig, gyda'r bwriad penodol o lywio dyluniad y radd Meistr Genedlaethol. Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd oedd:<br>'Mae angen i ddyluniad aseiniadau fod yn rheoladwy i athrawon prysur, a bydd angen ystyried sut mae tasgau asesu'n cysylltu'n uniongyrchol ag ymarfer. (Ibid: 9).'<br>Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod gan fersiwn gyntaf y rhaglen MEP ormod o bwyntiau asesu (Ibid: 76), a roddodd faich asesu sylweddol a pharhaus ar weithwyr proffesiynol prysur. Wrth i'r rhaglen MEP symud yn ei blaen, ac yn seiliedig ar adborth myfyrwyr, lleihaodd nifer y pwyntiau asesu, wrth gadw maint cyffredinol priodol o asesiadau o ran y cyfrif geiriau cyfatebol.<br>Mae tîm y cynnig wedi ystyried yr argymhelliad MEP hwn yn strategaeth dylunio ac asesu'r rhaglen, gan gefnogi pwyntiau asesu unigol ar gyfer pob modiwl, wedi'u trefnu'n bwrpasol, pan fo'n bosibl, ar adeg o'r flwyddyn academaidd pan fydd llwythau gwaith is gan fyfyrwyr. Yn ogystal, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i ail-wneud pob asesiad ddwywaith, os bydd angen. |
| **9** | **Gwybodaeth Bellach** |
| 9.1 | Oes nodweddion arbennig i'r cynllun sydd â goblygiadau ar gyfer ei ddichonoldeb, ei reoli neu ei ddarparu, neu ar gyfer rheoliadau'r Brifysgol? |
| | Prifysgolion unigol i gyflwyno'r wybodaeth yma.<br>**Prifysgol Abertawe** |

Bydd angen y dirymiadau canlynol o Reoliadau Prifysgol Abertawe ar gyfer Cyrsiau a Addysgir:
Caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at uchafswm o 60 credyd yn unig.
Bydd angen marc llwyddo gwerth 50% ar gyfer pob modiwl.
Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.
Cynhelir gwaith dilysu ar sail un ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen.

**PRIFYSGOL DE CYMRU**

Bydd angen y dirymiadau canlynol o Reoliadau Prifysgol Abertawe ar gyfer Cyrsiau a Addysgir:
Bydd angen marc llwyddo gwerth 50% ar gyfer pob modiwl.
Caniateir uchafswm o dair ymgais ym mhob modiwl (yr ymgais gyntaf, ail-sefyll ac ail-wneud); ni chaniateir i fyfyrwyr ail-sefyll ar ôl ail-wneud.
Caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at uchafswm o 60 credyd yn unig.
Ni chaniateir clymu na digolledu mewn asesiadau; bydd un asesiad ym mhob modiwl.
Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.
Cynhelir gwaith dilysu ar sail un ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen, yn hytrach na dogfennaeth ddilysu Prifysgol De Cymru.
Yn ogystal, bydd yr eithriad canlynol o'r Glasbrint Academaidd yn berthnasol:
Caniateir deilliannau dysgu hyd at uchafswm o chwech ym mhob modiwl 20 credyd.

**Prifysgol Fetropolitan Caerdydd**

Bydd angen y dirymiadau canlynol o Reoliadau Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ar gyfer Cyrsiau a Addysgir:
Caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at uchafswm o 60 credyd yn unig.
Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.
Cynhelir gwaith dilysu ar sail un ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen, yn hytrach na dogfennaeth ddilysu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.

**Prifysgol Glyndŵr**

Bydd angen y dirymiadau canlynol o Reoliadau Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar gyfer Cyrsiau a Addysgir:
Caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at uchafswm o 60 credyd yn unig.
Bydd angen marc llwyddo gwerth 50% ar gyfer pob modiwl.
Caniateir uchafswm o dair ymgais ym mhob modiwl (yr ymgais gyntaf, ail-sefyll ac ail-wneud); ni chaniateir i fyfyrwyr ail-sefyll ar ôl ail-wneud.
Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.
Cynhelir gwaith dilysu ar sail **un** ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen.

**Prifysgol Aberystwyth**

Bydd angen y dirymiadau canlynol o'r Rheoliadau ar gyfer Dyfarniadau Ôl-raddedig Modiwlaidd a addysgir:
Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.
Gofyniad dilyniant cyn i fyfyrwyr gwblhau'r traethawd hir gwerth 60 credyd.
Cynhelir gwaith dilysu ar sail un ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen.
Mae'r rheoliadau presennol yn caniatáu tair ymgais i basio modiwl, ond bydd yr amseru'n wahanol os bydd gofyn eu cwblhau cyn symud ymlaen at y traethawd hir.
Rhaid pasio'r holl gredydau (mae'r rheoliadau presennol yn caniatáu i fyfyrwyr fethu 20 credyd ar gyfer dyfarniad MA)
Ar hyn o bryd, caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at 120 credyd, ond disgresiwn yr adran fydd hyn.

| | |
|---|---|
| | **Prifysgol Bangor**<br>Bydd angen y dirymiadau canlynol o Reoliadau Prifysgol Bangor ar gyfer Cyrsiau a Addysgir:<br>Caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at uchafswm o 60 credyd yn unig.<br>Bydd angen marc llwyddo gwerth 50% ar gyfer pob modiwl.<br>Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.<br>Cynhelir gwaith dilysu ar sail un ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen.<br>**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**<br>Bydd angen y dirymiadau canlynol o Reoliadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar gyfer Cyrsiau a Addysgir:<br>Caniateir Cydnabod Dysgu Blaenorol hyd at uchafswm o 60 credyd yn unig.<br>Rhaid pasio'r holl gredydau<br>Caniateir uchafswm o dair ymgais ym mhob modiwl (yr ymgais gyntaf, ail-sefyll ac ail-wneud); ni chaniateir i fyfyrwyr ail-sefyll ar ôl ail-wneud.<br>Penodir Arholwyr Allanol ar lefel Cymru gyfan.<br>Cynhelir gwaith dilysu ar sail un ddogfen ddilysu bwrpasol sy'n tynnu ar ofynion pob un o'r saith sefydliad sy'n dilysu'r rhaglen. |
| **10** | **Marchnata'n amodol ar gymeradwyaeth** |
| 10.1 | Rhowch grynodeb hyd at 250 o eiriau ar gyfer marchnata'r cynllun ar-lein. |
| | Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig pennu 50 o leoedd a ariennir ar gyrsiau Meistr ym mhob Sefydliad Addysg Uwch ac er mwyn bod yn gymwys bydd yn rhaid i ymgeiswyr fod yn ymarfer ers 3 i 6 mlynedd, yn preswylio yng Nghymru ac wedi'u cyflogi mewn swydd 0.4 CALl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru yn ystod 3 i 6 mlynedd o'u gyrfa.<br><br>Yn 2021, y nifer o athrawon a oedd wedi graddio yn ystod y blynyddoedd 2015-16 i 2018-19 oedd 4,452, felly wrth dynnu athreuliad, y ffigurau yw tua 350. 8-9%<br><br>Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r ddarpariaeth AGA achrededig bresennol a rhoir grantiau i ariannu 10 lle ym mhob darparwr ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion Partner AGA.<br><br>Gan y bydd uchafswm o saith darparwr Sefydliad Addysg Uwch yn cynnig uchafswm o 350 o leoedd y flwyddyn, rydym yn amcangyfrif y bydd carfan gyntaf 2021 yn tynnu ar gronfa botensial o oddeutu 4,500 o athrawon sydd yn ystod blynyddoedd 3 i 6 o'u gyrfaoedd (gan ganiatáu rhywfaint o athreuliad yn ystod blynyddoedd cynnar addysgu). Mae hyn yn golygu, yn y flwyddyn gyntaf, y bydd angen i Sefydliadau Addysg Uwch ddenu tua 8-9% o athrawon gyrfa gynnar er mwyn llenwi eu lleoedd a noddir. |
| **11** | **Atodiadau** |
| 11.1 | Cadarnhewch fod y pethau canlynol wedi'u hatodi: |

| | | |
|---|---|---|
| | Manyleb(au) rhaglen gan gynnwys deilliannau dysgu wedi'u mapio | Cadarnhawyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Tystiolaeth o Ymgynghori'n Allanol â myfyrwyr a sefydliadau/cyrff perthnasol eraill | Cadarnhawyd |
| | Ffurflenni cymeradwyo modiwl newydd/wedi'u hail-strwythuro, lle bo hynny'n bridol | Cadarnhawyd |